Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllawiau ar hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 117/2013
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2013

# Canllawiau ar hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod

**Cynulleidfa** Awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu; awdurdodau esgobaethol a Llywodraethwyr Cymru.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn egluro darpariaethau yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) 2013 a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc Corff Llywodraethu) (Cymru) 2013, sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod a darparu clerc ar gyfer corff llywodraethu.

**Camau i'w cymryd** Dylai'r holl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chlercod cyrff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau hyn sy'n egluro'r gofynion statudol ar gyfer mynychu'r hyfforddiant gorfodol a phwy sydd wedi'u heithrio.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Tel: 029 2082 6051
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

ISBN digidol 978 1 4734 0244 7
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19657

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr | 4 |
| 3. | Hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr | 8 |
| 4. | Hyfforddiant ar ddeall data perfformaid ysgolion | 10 |
| 5. | Hyfforddiant i Gadeiryddion | 12 |
| 6. | Clercod cyrff llywodraethu | 15 |
| Atodiad: | Cwestiynau ac atebion | 20 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae gan gyrff llywodraethu ran hanfodol i'w chwarae o ran gwella perfformiad, a dyletswydd i hyrwyddo'r safonau uchaf o gyflawniad addysgol i bob dysgwr. Mae angen i lywodraethwyr fod yn wybodus i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau ac i gyfrannu'n effeithiol i'r rhaglen gwella ysgolion. Mae gwneud rheoliadau i fynnu hyfforddiant gorfodol o ansawdd da i lywodraethwyr a chlercod ar faterion a gaiff yr effaith fwyaf ar godi safonau mewn llywodraethu yn un ffordd o gyflawni hyn.

1.2 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011") yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol ar faterion penodol. Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("y rheoliadau hyfforddi llywodraethwyr") wedi'u gwneud i'r diben hwn a byddant yn dod i rym ym Medi 2013. Maent yn mynnu bod yr hyfforddiant canlynol yn cael ei gyflawni:

- Hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr sydd newydd eu penodi neu eu hethol.
- Hyfforddiant i gadeiryddion; a
- Hyfforddiant i'r holl lywodraethwyr ar ddefnyddio a deall data ysgolion.

1.3 Bydd yr hyfforddiant cynefino gorfodol i lywodraethwyr newydd, yr hyfforddiant i gadeiryddion, a'r hyfforddiant i'r holl lywodraethwyr ar ddeall data yn rhoi i lywodraethwyr well dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a'r hyder i chwarae rhan lawn a gweithredol yn nhrafodaethau'r corff llywodraethu er mwyn gwella perfformiad a sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'w hysgol.

1.4 I gynorthwyo cyrff llywodraethu ymhellach mae Mesur 2011 hefyd yn cynnwys darpariaethau i wella lefel y clercio ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol:

- i awdurdodau lleol ddarparu unigolyn addas i fod yn glerc ar gyfer cyrff llywodraethu ar gais;
- i awdurdodau lleol sicrhau bod hyfforddiant i glercod ar gael (er nad yw awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflwyno'r hyfforddiant i glercod);
- i'r holl glercod fynychu a chwblhau'r hyfforddiant yn foddhaol neu gael eu diswyddo o swydd y clerc.

1.5 Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc Corff Llywodraethu) (Cymru) 2013 ("y rheoliadau clercio"), sy'n dod i rym ym Medi 2013, yn darparu ar gyfer y materion hyn.

1.6 Mae Mesur 2011 hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru nodi cynnwys yr hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod. Bydd hyn yn rhoi cysondeb i safon a lefel yr hyfforddiant a ddarperir a bydd yn sicrhau bod yr holl lywodraethwyr a chlercod, ble bynnag y bônt yng Nghymru, yn gallu cael ac yn cael yr un hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae'r dogfennau sy'n rhestru cynnwys yr hyfforddiant wedi'u nodi yn Adran 2.

1.7 Mae'r hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr newydd eu penodi neu eu hethol yn canolbwyntio ar eu rolau a chwmpas eu cyfrifoldebau ac yn rhoi amlinelliad bras iddynt o'r cyd-destun cyfreithiol y bydd llywodraethwyr yn gweithredu ynddo. Bydd deall y fframwaith hwn yn rhoi i lywodraethwyr newydd yr anogaeth a'r hyder i allu chwarae rhan lawn a gweithredol ym mhenderfyniadau'r corff llywodraethu.

1.8 Mae'r hyfforddiant i gadeiryddion cyrff llywodraethu yn canolbwyntio ar arwain ac ar gynnal perthynas effeithiol â phartneriaid allweddol, h.y. penaethiaid, clercod cyrff llywodraethu a'r awdurdod lleol, ac yn rhoi i gadeiryddion cyrff llywodraethu y sgiliau sydd eu hangen i redeg corff llywodraethu effeithlon ac effeithiol ac i gydweithio â phenaethiaid, a'u herio, er mwyn codi safonau.

1.9 Bydd yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn helpu llywodraethwyr i ddeall beth y mae'r data ysgolion yn ei olygu i'w hysgolion a sut y maent yn cymharu ag ysgolion mewn sefyllfa ac amgylchiadau tebyg, a bydd yn eu helpu i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella perfformiad. Bydd dealltwriaeth o ddata ysgolion yn rhoi i lywodraethwyr yr hyder sydd ei angen i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r corff llywodraethu ar wybodaeth yn ymwneud â data, a'r hyder i ofyn cwestiynau priodol a threiddgar.

1.10 Mae'r hyfforddiant i glercod yn canolbwyntio i raddau helaeth ar eu rôl o ran cynorthwyo cyrff llywodraethu, cadeiryddion cyrff llywodraethu a phenaethiaid, fel y nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae cynnwys y rhaglen hyfforddi i fod i roi gwell dealltwriaeth i glercod o'u rolau ac o effaith hyn ar waith y corff llywodraethu, yn enwedig eu perthynas â chadeiryddion cyrff llywodraethu a phenaethiaid.

1.11 I helpu awdurdodau lleol i ddarparu'r hyfforddiant gorfodol cyflogodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddwr y Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil yn Abertawe i lunio rhaglenni hyfforddi ar gyfer hyfforddwyr. Mae'r rhaglenni hyfforddi'n ymdrin â phedwar pwnc yr hyfforddiant gorfodol – cynefino, hyfforddiant i gadeiryddion, hyfforddiant ar ddata a hyfforddiant i glercod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â'r Ganolfan i sicrhau bod y rhaglenni'n ymdrin â'r holl faterion a nodir yn y dogfennau Cynnwys hyfforddiant a restrir yn Adran 2.

1.12 Mae penaethiaid wedi'u heithrio rhag cyflawni'r hyfforddiant gorfodol, er y byddai'n cael ei ystyried yn arfer da gwahodd penaethiaid newydd eu penodi i fynychu'r hyfforddiant am y byddai'n rhoi iddynt:

- well dealltwriaeth o rôl llywodraethwyr o'r hyfforddiant cynefino;
- dealltwriaeth o'r hyn y mae'r hyfforddiant ar ddata'n ei gynnwys a sut i gyflwyno data i lywodraethwyr;
- dealltwriaeth o rôl y cadeirydd a sut i ddatblygu perthynas waith dda a chefnogol ag ef.

1.13 Er bod yr hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion wedi’i fwriadu ar gyfer cadeiryddion cyrff llywodraethu, byddai’n cael ei ystyried yn arfer da ac yn hwyluso cynllunio ar gyfer olyniaeth pe bai is-gadeiryddion cyrff llywodraethu ac unrhyw lywodraethwr sy’n mynegi diddordeb mewn dod yn gadeirydd yn mynychu’r hyfforddiant i gadeiryddion. Byddai o gymorth pe gallai awdurdodau lleol gynnwys cyfeiriad at hyn yn eu rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr. Fodd bynnag, cadeiryddion etholedig cyrff llywodraethu ddylai gael y flaenoriaeth wrth benderfynu pwy sydd i gyflawni’r hyfforddiant.

## 2. Hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr

2.1 Mae'r bennod hon yn egluro pwy sy'n gorfod mynychu'r hyfforddiant gorfodol a phwy sydd wedi'u heithrio, a beth sy'n digwydd os na fydd llywodraethwyr a chlercod yn mynychu'r hyfforddiant.

2.2 Bydd yn ofynnol i nifer fawr o lywodraethwyr gwblhau'r gwahanol raglenni hyfforddi gorfodol, yn enwedig yr hyfforddiant ar ddata y mae'n rhaid i bob llywodraethwr ei gwblhau. Mae hyn yn cynnwys y llywodraethwyr a'r cadeiryddion cyrff llywodraethu ysgolion ffederal a'r llywodraethwyr cysgodol a'r cadeiryddion cyrff llywodraethu cysgodol y cyfeirir atynt yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012. Mae'n hanfodol felly fod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio er mwyn cytuno ar broses ar gyfer rhannu gwybodaeth i gofnodi a monitro presenoldeb ac i gadw cofnod o'r rhai sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r rhai nad ydynt wedi'i gwblhau.

### Beth yw cyfrifoldeb cyrff llywodraethu?

2.3 Cyrff llywodraethu fydd yn gyfrifol yn y pen draw am atal ac efallai anghymhwyso llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol a bydd angen cofnod cywir a chyfredol o bresenoldeb arnynt i hwyluso hyn. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr a byddant yn dibynnu ar gyrff llywodraethu i roi enwau'r holl lywodraethwyr perthnasol iddynt, fel bod eu cofnodion yn gyfredol. Bydd angen felly i'r corff llywodraethu gytuno ar broses i gyflwyno enwau llywodraethwyr perthnasol i'r awdurdod lleol; efallai y byddant yn penderfynu y dylai llywodraethwyr unigol gyflwyno'u henw i'r awdurdod lleol, neu y dylid dirprwyo'r gwaith hwn i gadeirydd neu glerc y corff llywodraethu.

2.4 Gall awdurdodau lleol eisoes fod yn ymwybodol o riant-, athro- a staff-lywodraethwyr sydd newydd eu hethol mewn ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin a gynhelir, am eu bod fel arfer yn rhan o drefnu'r broses ethol. Ond ni fydd awdurdodau lleol fel arfer yn ymwneud ag ethol y llywodraethwyr hyn mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac mewn ysgolion sefydledig, am mai'r corff llywodraethu/pennaeth sy'n gyfrifol am y broses ethol.

2.5 Gall awdurdodau lleol hefyd fod yn anymwybodol o lywodraethwyr penodedig eraill fel llywodraethwyr cymunedol, llywodraethwyr cynrychioliadol (mewn ysgolion arbennig cymunedol yn unig), llywodraethwyr partneriaeth (mewn ysgolion sefydledig heb sefydliad), llywodraethwyr sefydledig a llywodraethwyr nawdd, pan fo hysbysu am benodiad yn gyfrifoldeb uniongyrchol i glerc/cadeirydd y corff llywodraethu ac/neu'r pennaeth. Bydd angen i gadeiryddion cyrff llywodraethu sicrhau bod yr awdurdod lleol hefyd yn cael manylion y penodiadau hyn.

2.6 Yn eu cyfarfod cyntaf dylid dweud yn glir wrth lywodraethwyr newydd y bydd yn rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant cynefino a data gorfodol o fewn y cyfnod hyfforddi gofynnol, oni bai bod y rheoliadau'n eu heithrio rhag gwneud hynny. Dylai cadeirydd y corff llywodraethu hefyd hysbysu llywodraethwyr sydd wedi bod yn y swydd am lai na dwy flynedd cyn i'r rheoliadau ddod i rym (hy er Medi 2011), y bydd

yn rhaid iddynt hwy hefyd gyflawni'r hyfforddiant cynefino gorfodol newydd. Unwaith eto bydd angen i'r llywodraethwyr a'r corff llywodraethu gytuno ar ffordd o gyflawni hyn. Pan fydd gan yr awdurdod lleol restr gyfredol o enwau'r holl lywodraethwyr, gall gynllunio a hysbysebu'r sesiynau hyfforddi a gwahodd llywodraethwyr i'w mynychu.

2.7 Am fod modd i lywodraethwyr gael eu hatal ac yn y pen draw eu hanghymhwyso rhag dal swydd llywodraethwr os nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant cynefino a data gorfodol, ac am fod modd i gadeiryddion gael eu diswyddo, mae'n bwysig bod hyfforddiant i lywodraethwyr yn cael amlygrwydd. Gellid sicrhau hyn drwy gynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr fel eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y corff llywodraethu fel y gall presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi gael ei fonitro a'i gofnodi yn y cofnodion gan y clerc.

## Beth yw cyfrifoldeb awdurdodau lleol?

2.8 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr ac am sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn ymdrin â'r holl bynciau a nodir yn y dogfennau 'Cynnwys Hyfforddiant Gorfodol' perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Dyma'r dogfennau cynnwys a'u rhifau ISBN:

- Cynnwys hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr yng Nghymru – (Cymraeg) – ISBN 978-0-7504-9647-6
- Cynnwys hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr yng Nghymru – (Saesneg) – ISBN 978-0-7504-9646-9
- Cynnwys yr hyfforddiant i gadeiryddion cyrff llywodraethu yng Nghymru – (Cymraeg) – ISBN 978-0-7504-9649-0
- Cynnwys yr hyfforddiant i gadeiryddion cyrff llywodraethu yng Nghymru – (Saesneg) – ISBN 978-0-7504-9648-3
- Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion – (Cymraeg) – ISBN 978-0-7504-9651-3
- Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion – (Saesneg) – ISBN 978-0-7504-9650-6
- Cynnwys hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethu yng Nghymru – (Cymraeg) – ISBN 978-0-7504-9645-2
- Cynnwys hyfforddiant i glercod cyrff llywodraethu yng Nghymru – (Saesneg) – ISBN 978-0-7404-9644-5

2.9 O gofio'r niferoedd o lywodraethwyr sy'n debygol o fod angen hyfforddiant, bydd angen i awdurdodau lleol gynllunio'u rhaglenni hyfforddi fel bod yr hyfforddiant gorfodol ar gael o fewn y terfynau amser gofynnol a rhoi gwybod i lywodraethwyr ei fod ar gael.

2.10 Efallai y bydd awdurdodau lleol neu ddarparwyr hyfforddiant am ystyried rhoi hysbysiad ysgrifenedig/tystysgrif i lywodraethwyr yn cadarnhau eu bod wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol. Bydd hyn yn gofnod defnyddiol y gall llywodraethwyr ei ddefnyddio i ddangos eu bod wedi cyflawni'r sesiwn hyfforddi mewn awdurdod lleol nad yw'n cynnal yr ysgol y maent yn llywodraethwr ynddi, neu i ddangos eu bod wedi mynychu'r hyfforddiant os byddant yn symud i gorff llywodraethu neu ardal awdurdod lleol arall.

## Atal llywodraethwyr nad ydynt yn cwblhau hyfforddiant gorfodol

2.11 Bydd llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant cynefino a data gorfodol yn cael eu hatal yn awtomatig. Nid yw'n ofynnol i gyrff llywodraethu ddilyn y broses ar gyfer atal llywodraethwyr a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 neu yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 wrth atal llywodraethwr am beidio â mynychu hyfforddiant gorfodol.

2.12 Cyn gynted ag y bydd yn hysbys nad yw llywodraethwr perthnasol wedi mynychu'r hyfforddiant cynefino a data gorfodol, dylai cadeirydd y corff llywodraethu roi llythyr i'r llywodraethwr yn ei hysbysu ei fod wedi'i atal o'r corff llywodraethu am nad yw wedi cwblhau'r hyfforddiant cynefino gorfodol ac/neu'r hyfforddiant data gorfodol. Dylai'r llythyr hefyd hysbysu'r llywodraethwr fod ganddo chwe mis o ddyddiad y llythyr atal i fynychu'r hyfforddiant ac y bydd peidio â gwneud hynny yn arwain at ei anghymhwyso'n awtomatig rhag dal swydd llywodraethwr.

2.13 Yn ystod y cyfnod atal dylai cadeirydd y corff llywodraethu neu'r clerc hefyd gysylltu â'r llywodraethwr a ataliwyd i ofyn a yw wedi mynychu'r hyfforddiant gofynnol fel y gall barhau i ddal y swydd. Gall cadeiryddion ac/neu glercod hefyd dderbyn hysbysiad gan yr awdurdod lleol os bydd y llywodraethwr wedi mynychu'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod atal neu yn uniongyrchol gan y llywodraethwr ei hun.

2.14 Bydd cadeiryddion cyrff llywodraethu perthnasol hefyd yn cael eu hatal rhag dal swydd y cadeirydd os na fyddant yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion. Ar ôl derbyn yr wybodaeth hon dylai'r clerc ysgrifennu at y cadeirydd i'w hysbysu ei fod wedi'i atal rhag bod yn gadeirydd ac na all gael ei ethol yn gadeirydd eto nes ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Dylid anfon copi o'r llythyr at y pennaeth. Yn ystod yr ataliad dylai'r clerc gysylltu â'r cadeirydd i ofyn a yw wedi cwblhau'r hyfforddiant i gadeiryddion – ceir mwy o wybodaeth am hyn yn Adran 5.

2.15 Wrth drefnu'r hyfforddiant cynefino a'r hyfforddiant data sydd ar gael, dylai awdurdodau lleol gadw mewn cof yr angen i lywodraethwyr a ataliwyd fynychu'r hyfforddiant gorfodol yn ystod eu hataliad fel y gallant barhau i ddal y swydd.

2.16 Gall llywodraethwr a ataliwyd am beidio â mynychu hyfforddiant cynefino a data gorfodol gael ei ddiswyddo beth bynnag o'r corff llywodraethu os yw'r amgylchiadau'n briodol. Yn yr amgylchiadau hyn nid atelir y llywodraethwr rhag mynychu cyfarfod o'r corff llywodraethu a drefnwyd yn benodol i ystyried diswyddo'r llywodraethwr hwnnw yn unol â Rheoliad 30 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 neu Reoliad 38 o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010.

2.17 Rhaid i lywodraethwyr sydd wedi'u hatal am beidio â mynychu hyfforddiant gorfodol barhau i dderbyn agendâu a phapurau'r corff llywodraethu.

## Anghymhwyso llywodraethwyr

2.18 Os na fydd llywodraethwr yn cwblhau'r hyfforddiant cynefino a data gorfodol yn ystod cyfnod yr ataliad, dylai clerc a chadeirydd y corff llywodraethu fod yn ymwybodol o hyn drwy eu monitro eu hunain o'r sefyllfa. Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r cadeirydd ysgrifennu at y llywodraethwr ar ddiwrnod olaf yr ataliad i'w hysbysu ei fod wedi'i anghymhwyso rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr ac y bydd y corff llywodraethu'n chwilio am rywun i gymryd ei le. Dylai'r llythyr hefyd hysbysu'r llywodraethwr na all gael ei dderbyn i'w benodi neu ei ethol i'r corff llywodraethu oni bai ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol cyn y penodiad neu'r etholiad.

2.19 Rhaid i gyrff llywodraethu ac eraill sy'n penodi llywodraethwyr sicrhau bod llywodraethwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant cyn iddynt gael eu hailbenodi i'r corff llywodraethu. Yn achos rhiant-, athro- a staff-lywodraethwyr etholedig, yr awdurdod lleol fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r monitro hwn am mai hwy sy'n gyfrifol am y broses ethol mewn ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin a gynhelir. Byddant yn gwybod a yw rhiant-, athro- neu staff-lywodraethwr a ataliwyd wedi cael yr hyfforddiant a ph'un a ellir cynnig ei enw ar gyfer etholiad. Dylai awdurdodau lleol hysbysu cadeirydd y corff llywodraethu a'r clerc o hyn.

# 3. Hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr

3.1 Mae hyfforddiant cynefino i lywodraethwyr yn hanfodol os ydynt i ddeall eu rôl a chwmpas eu cyfrifoldebau. Bydd yr hyfforddiant cynefino yn helpu i sicrhau bod llywodraethwyr newydd:

- yn meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddechrau cyflawni eu gwaith yn effeithiol fel llywodraethwr ac i helpu eu hysgol i godi safonau;
- yn ymwybodol o faterion addysg cenedlaethol a lleol a'u heffaith ar gyrff llywodraethu;
- yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a bod angen datblygu eu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd eraill sydd ar gael iddynt; ac
- yn magu hyder i'w galluogi i chwarae rhan lawn a gweithredol yng ngwaith y corff llywodraethu.

3.2 Bydd yr hyfforddiant hefyd yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru, a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn y dylid ei ddisgwyl gan lywodraethwyr o ran ateb gofynion y gyfraith ac o ran codi safonau a gwella ysgolion. Bydd hefyd yn egluro rôl strategol llywodraethwyr a sut y mae hyn yn cynorthwyo ac yn herio gwaith yr ysgol a'r uwch dîm arwain; eu rôl o ran pennu polisïau a thargedau a sut y dylai'r rhain gael eu monitro a'u gwerthuso; a sut ac i bwy y mae llywodraethwyr yn atebol.

3.3 Bydd yr wybodaeth a roddir i lywodraethwyr newydd drwy'r hyfforddiant cynefino yn rhoi'r hyder iddynt ddatblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy a fydd o fudd i gorff llywodraethu fel gweithio mewn tîm, datrys problemau, rheoli amser a dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth.

## Pwy sy'n gorfod mynychu'r hyfforddiant cynefino?

3.4 Bydd yn rhaid i unrhyw lywodraethwr sydd newydd ei ethol neu ei benodi ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym fynychu'r hyfforddiant cynefino gorfodol o fewn blwyddyn i gael ei benodi neu ei ethol.

3.5 Bydd yn rhaid hefyd i unrhyw lywodraethwyr presennol sydd wedi bod yn eu swyddi am ddwy flynedd neu lai pan ddaw'r rheoliadau i rym (h.y. er Medi 2011) ac nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant cynefino'r awdurdod lleol, fynychu'r hyfforddiant cynefino o fewn blwyddyn i'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym, h.y. Medi 2014.

3.6 Bydd unrhyw lywodraethwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant cynefino awdurdod lleol neu'r hyfforddiant cynefino gorfodol ac wedyn wedi cael toriad o leiaf bum mlynedd yn olynol yn eu gwasanaeth ("toriad perthnasol mewn gwasanaeth") fel llywodraethwr mewn unrhyw ysgol yng Nghymru yn gorfod cwblhau'r hyfforddiant cynefino eto o fewn blwyddyn i gael eu penodi neu eu hethol.

## Pwy sydd wedi'u heithrio?

3.7 Nid yw'n ofynnol i lywodraethwr gyflawni hyfforddiant cynefino os yw unrhyw un o'r eithriadau canlynol yn berthnasol:

- Llywodraethwr sydd wedi bod yn y swydd am fwy na dwy flynedd cyn Medi 2013 ni waeth faint o amser sydd ar ôl ganddo yn y swydd.
- Llywodraethwr sydd wedi bod yn y swydd am fwy na dwy flynedd ac sy'n cael ei benodi neu ei ethol am gyfnod pellach mewn unrhyw ysgol yng Nghymru ac nad yw wedi cael toriad perthnasol yn ei wasanaeth.
- Llywodraethwr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol yn cael ei benodi neu ei ethol am gyfnod pellach mewn unrhyw ysgol yng Nghymru ac nad yw wedi cael toriad perthnasol yn ei wasanaeth.
- Llywodraethwr sydd wedi bod yn y swydd am lai na dwy flynedd cyn Medi 2013 ac sydd wedi cwblhau hyfforddiant cynefino'r awdurdod lleol, yn cael ei benodi neu ei ethol am gyfnod pellach mewn unrhyw ysgol yng Nghymru ac nad yw wedi cael toriad perthnasol yn ei wasanaeth.

3.8 Mae pennaeth (sydd hefyd yn llywodraethwr) wedi'i eithrio rhag cwblhau'r hyfforddiant cynefino gorfodol, er y byddai'n arfer da pe bai penaethiaid newydd eu penodi yn cael eu gwahodd i fynychu'r hyfforddiant cynefino er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o waith llywodraethwyr ac o gwmpas eu cyfrifoldebau.

## Toriad mewn gwasanaeth

3.9 Rhaid i unrhyw lywodraethwr sydd wedi cael toriad o bum mlynedd neu fwy yn ei wasanaeth (toriad perthnasol mewn gwasanaeth), heb ystyried nifer y blynyddoedd y bu'n llywodraethwr neu a yw wedi mynychu hyfforddiant cynefino o'r blaen, fynychu'r hyfforddiant cynefino eto pan gaiff ei benodi neu ei ethol i sicrhau bod ei wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

## Atal ac anghymhwyso

3.10 Bydd llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod hyfforddi gofynnol yn cael eu hatal yn awtomatig. Os na fydd y llywodraethwyr yn cwblhau'r hyfforddiant yn ystod cyfnod atal o chwe mis byddant yn cael eu hanghymhwyso'n awtomatig rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr. Ceir arweiniad ar y broses atal ac anghymhwyso ar gyfer llywodraethwyr nad ydynt yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol yn Adran 2.

# 4. Hyfforddiant ar ddeall data perfformiad ysgolion

4.1 Mae dealltwriaeth o'r data sy'n ymwneud â'u hysgol yn hanfodol i lywodraethwyr gyflawni'n effeithiol eu rolau allweddol o gynllunio strategol, gosod targedau, monitro a gwerthuso a bod yn atebol.

4.2 Bydd yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn datblygu dealltwriaeth llywodraethwyr o'r data a ddarperir yn rheolaidd bellach gan ac ar gyfer ysgolion ac yn egluro sut i ddefnyddio'r data i wella perfformiad ysgol. Bydd y gallu i ddadansoddi data perfformiad ysgol ac i edrych yn fanwl ar yr wybodaeth graidd yn galluogi llywodraethwyr i wneud cymariaethau ac i feincnodi sut y mae eu hysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill mewn amgylchiadau tebyg.

4.3 Dylai dysgu am ddata ysgolion, a deall beth y maent yn ei olygu i'r ysgol a beth sydd angen ei wneud i godi safonau, roi i lywodraethwyr yr hyder i ofyn cwestiynau heriol i bennaeth a thîm arwain yr ysgol er mwyn gwella perfformiad a chyrhaeddiad disgyblion.

## Pwy sy'n gorfod mynychu'r hyfforddiant data?

4.4 Rhaid i bob llywodraethwr a gaiff ei ethol neu ei benodi (gan gynnwys am gyfnod pellach) ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym, h.y. Medi 2013, fynychu'r hyfforddiant data o fewn blwyddyn i benodiad neu etholiad y llywodraethwr hwnnw.

## Pwy sydd wedi'u heithrio?

4.5 Nid yw'n ofynnol i lywodraethwr fynychu'r hyfforddiant data os yw unrhyw un o'r eithriadau canlynol yn berthnasol:

- Llywodraethwr sydd wedi cwblhau **hyfforddiant data awdurdod lleol** yn y flwyddyn cyn i'r rheoliadau ddod i rym (h.y. Medi 2012 hyd 31 Awst 2013) ac sy'n cael ei ethol neu ei benodi am gyfnod pellach ac nad yw wedi cael toriad perthnasol yn ei wasanaeth.
- Llywodraethwr sydd wedi cwblhau'r **hyfforddiant gorfodol ar ddata** ac sy'n cael ei ethol neu ei benodi am gyfnod pellach ac nad yw wedi cael toriad perthnasol yn ei wasanaeth.

4.6 Mae penaethiaid hefyd wedi'u heithrio rhag mynychu'r hyfforddiant data os ydynt yn llywodraethwr, er y byddai'n arfer da gwahodd penaethiaid newydd eu penodi er mwyn iddynt feithrin gwell dealltwriaeth o'r data ac o'r hyn y gellir ei gyflawni o'u defnyddio.

## Toriad mewn gwasanaeth

4.7 Rhaid i unrhyw lywodraethwr sydd wedi cael toriad perthnasol mewn gwasanaeth, heb ystyried nifer y blynyddoedd y bu'n llywodraethwr neu a yw wedi mynychu hyfforddiant data o'r blaen, fynychu'r hyfforddiant data pan gaiff ei ailbenodi neu ei ailethol i sicrhau bod ei wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol.

## Atal ac anghymhwyso

4.8 Bydd unrhyw lywodraethwr nad yw'n cwblhau'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod hyfforddi gofynnol yn cael ei atal yn awtomatig o'r corff llywodraethu. Os na fydd y llywodraethwr yn cwblhau'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod atal o chwe mis bydd yn cael ei anghymhwyso'n awtomatig rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr. Ceir arweiniad ar y broses atal ac anghymhwyso yn Adran 2.

# 5. Hyfforddiant i Gadeiryddion

5.1 Mae swydd cadeirydd y corff llywodraethu yn un o'r pwysicaf. Mae perthynas y Cadeirydd â'r pennaeth yn hanfodol o ran sicrhau bod y corff llywodraethu'n effeithiol wrth gynorthwyo'r pennaeth a'r uwch dîm arwain, a hefyd wrth herio'r pennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn ymdrechu'n gyson i wella perfformiad.

5.2 Bydd yr hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru a bydd yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan gadeirydd corff llywodraethu, gan gynnwys rhoi arweiniad clir wrth drefnu gwaith y corff llywodraethu; canolbwyntio trafodaethau'r corff llywodraethu ar eu rôl strategol a'u rôl o ran gwella perfformiad yr ysgol; a gweithredu fel cyfaill beirniadol.

5.3 Yn ogystal, bydd yr hyfforddiant yn cynorthwyo cadeiryddion drwy ddatblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy fel arwain tîm, hunanhyder, gweithio'n effeithiol mewn tîm, datrys problemau, rheoli amser, ysgogi, sgiliau dirprwyo da, a chymorth i lywodraethwyr eraill.

5.4 Yn benodol, bydd yr hyfforddiant:

- yn rhoi i gadeiryddion yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn effeithiol fel y gallant helpu i wella'r ysgol, codi safonau perfformiad, sicrhau lles disgyblion a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir;
- yn meithrin ac yn gwella'u dealltwriaeth o rôl cadeirydd effeithiol o ran arwain y corff llywodraethu;
- yn cynyddu eu hyder a'u sgiliau arwain a hefyd eu gallu i feithrin perthynas effeithiol â'r pennaeth er mwyn iddynt allu rhoi her a chymorth i'r ysgol;
- yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion addysg cenedlaethol a lleol a'u heffaith ar gyrff llywodraethu; ac
- yn eu helpu i gydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a bod angen datblygu eu sgiliau a sgiliau'r corff llywodraethu ehangach a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael iddynt.

## Pwy sy'n gorfod mynychu'r hyfforddiant?

5.5 Rhaid i'r canlynol fynychu'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion o fewn chwe mis i gael eu hethol yn gadeirydd:

- Pob cadeirydd corff llywodraethu a etholir am y tro cyntaf ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym ym Medi 2013;
- Unrhyw gadeirydd corff llywodraethu a etholir ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym ac nad yw wedi mynychu'r **hyfforddiant gorfodol** yn y ddwy flynedd cyn ei ethol;
- Unrhyw gadeirydd corff llywodraethu a etholir ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym ac nad yw wedi mynychu **hyfforddiant yr awdurdod lleol i**

**gadeiryddion** yn y ddwy flynedd cyn i'r rheoliadau ddod i rym – Medi 2011 hyd 31 Awst 2013;
- Unrhyw gadeirydd corff llywodraethu a etholir ar ôl toriad perthnasol yn ei wasanaeth fel cadeirydd.

5.6 Mae toriad perthnasol yng ngwasanaeth cadeirydd yn golygu cyfnod o o leiaf 5 mlynedd yn olynol ers i lywodraethwr wasanaethu fel cadeirydd corff llywodraethu.

## Pwy sydd wedi'u heithrio?

5.7 Ni fydd unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion neu hyfforddiant yr awdurdod lleol i gadeiryddion ac sydd wedi'i ethol i wasanaethu am gyfnod pellach fel cadeirydd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym – Medi 2013, ac nad yw wedi cael toriad perthnasol yn ei wasanaeth fel cadeirydd, yn gorfod cwblhau'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion.

5.8 Mae'r darpariaethau hyn yn golygu, er enghraifft, y bydd unrhyw gadeirydd corff llywodraethu sydd wedi'i ethol yn gadeirydd bob blwyddyn, am saith mlynedd cyn i'r rheoliadau ddod i rym, ac a fynychodd hyfforddiant i gadeiryddion ym mlwyddyn gyntaf ei ethol (h.y. saith mlynedd ynghynt), yn gorfod gwneud yr hyfforddiant gorfodol eto o fewn 6 mis ar ôl ei ailethol, am y rheswm bod mwy na dwy flynedd ers y tro diwethaf iddo gwblhau'r hyfforddiant i gadeiryddion.

5.9 Gall rhai sydd am ddod yn gadeiryddion cyrff llywodraethu neu is-gadeiryddion cyrff llywodraethu gwblhau'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion os ydynt yn dymuno. Os daw'r llywodraethwyr hyn yn gadeiryddion o fewn dwy flynedd i fynychu'r hyfforddiant ni fydd yn rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant eto. Dylai cadeiryddion cyrff llywodraethu, penaethiaid ac awdurdodau lleol fynd ati i annog y llywodraethwyr hyn i fynychu'r hyfforddiant hwn er mwyn iddynt allu elwa ar y profiad a dod i ddeall y rôl yn well.

## Cyfrifoldeb y cadeirydd

5.10 Pan gaiff cadeiryddion cyrff llywodraethu eu hethol dylent roi gwybod ar unwaith i Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr awdurdod lleol er mwyn iddynt gael gwybodaeth am ddyddiadau'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion. Rhaid i gadeiryddion hefyd roi gwybod i glerc y corff llywodraethu a'r pennaeth pan fyddant wedi cwblhau'r hyfforddiant i gadeiryddion, fel y gallant barhau i ddal y swydd.

## Cyfrifoldeb y clerc

5.11 Cyn cynnal yr etholiad am gadeirydd mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu dylai'r clerc hysbysu'r llywodraethwyr sy'n ymgeisio am swydd y cadeirydd y bydd yn rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant gorfodol o fewn chwe mis i'r etholiad (os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny) ac na fydd modd iddynt barhau i fod yn gadeirydd y corff llywodraethu os na wnânt hynny. Y clerc sydd â'r cyfrifoldeb hwn oherwydd yn unol â rheoliad 39 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliad 47(10) o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau

Amrywiol (Cymru) 2010 y clerc fydd yn cadeirio'r cyfarfod o'r corff llywodraethu pan fo'n rhaid ethol cadeirydd, ond ni fydd yn pleidleisio.

## Beth sy'n digwydd os na fydd cadeirydd corff llywodraethu yn cwblhau'r hyfforddiant?

5.12 Bydd unrhyw gadeirydd corff llywodraethu y mae'n ofynnol iddo gwblhau'r hyfforddiant gorfodol ac nad yw'n gwneud hynny yn ystod y cyfnod penodedig yn peidio ar unwaith â dal swydd fel cadeirydd. Os bydd y llywodraethwr hwnnw am ymgeisio eto mewn etholiad i fod yn gadeirydd corff llywodraethu bydd yn rhaid iddo gwblhau'r hyfforddiant i gadeiryddion cyn bod yn gymwys i gael ei ethol yn gadeirydd. Mae hyn yn cynnwys cadeiryddion cyrff llywodraethu cysgodol.

## 6. Clercod cyrff llywodraethu

6.1 Mae clercod yn rhan annatod o'r corff llywodraethu (gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion ffederal a chorff llywodraethu cysgodol) ac mae clercio o ansawdd da yn hanfodol os yw corff llywodraethu i fod yn effeithiol. Ar hyn o bryd mae modelau clercio gwahanol wedi'u mabwysiadu gan ysgolion ledled Cymru ac mae lefelau ac ansawdd y gwasanaeth a gynigir ganddynt yn amrywiol iawn. Mae hyn yn amrywio o unigolion sy'n darparu rôl ysgrifenyddol sylfaenol fel dosbarthu agendâu a phapurau a pharatoi cofnodion cyfarfodydd, i wasanaeth mwy proffesiynol gan glercod a ddarperir gan awdurdodau lleol, sy'n cynnwys rhoi cyngor i lywodraethwyr ar eu rolau a'u cyfrifoldebau ehangach ac ar y fframwaith cyfreithiol y mae cyrff llywodraethu'n gweithredu ynddo.

6.2 Mae clercod a ddarperir gan yr awdurdod lleol wedi'u hyfforddi'n drylwyr a byddant fel arfer yn Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr a gyflogir trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol. Caiff clercod eraill eu cyflogi gan y corff llywodraethu trwy 'gontract preifat'. Gall yr unigolion hyn fod yn aelodau o dîm cymorth a gweinyddu'r ysgol neu'n ysgrifennydd personol i'r pennaeth, neu yn aelod o'r cyhoedd a gyflogir i glercio'r corff llywodraethu ac/neu bwyllgorau. Gall y clerc a benodir i gorff llywodraethu cysgodol gan awdurdod lleol fod yn unigolyn sy'n perthyn i'r naill neu'r llall o'r categorïau hyn.

6.3 Mae rôl y clerc a'i ddyletswyddau wedi'u nodi yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ac yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010. Mae'n cynnwys:

- cynnull cyfarfodydd y corff llywodraethu;
- mynychu cyfarfodydd a pharatoi a chadw'r cofnodion;
- dosbarthu agendâu a phapurau;
- cadw cofrestr o'r llywodraethwyr a rhoi gwybod am unrhyw swyddi gwag;
- cadw cofrestr o bresenoldeb llywodraethwyr a rhoi gwybod am unrhyw ddiffyg presenoldeb;
- rhoi a derbyn hysbysiadau am swyddi gwag; diswyddo llywodraethwyr; ymddiswyddiad cadeiryddion ac is-gadeiryddion; ac anghymwysiadau;
- adrodd wrth y corff llywodraethu fel sy'n ofynnol;
- rhoi cyngor i'r corff llywodraethu ar ei swyddogaethau a gweithdrefnau;
- cyflawni swyddogaethau eraill ar gais y corff llywodraethu.

6.4 Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i glercod cyrff llywodraethu ac i glercod y mae'n rhaid eu penodi i glercio pedwar pwyllgor statudol y corff llywodraethu – y pwyllgor disgyblu disgyblion, y pwyllgor derbyniadau (ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn unig), y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo staff. Nid oes yn rhaid i'r sawl sy'n clercio'r pwyllgorau hyn fod yr un person â'r sawl sy'n clercio'r corff llywodraethu, er yr argymhellir hynny oherwydd cysondeb.

## Y rheoliadau clercio newydd

6.5 Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc Corff Llywodraethu) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer eu hysgolion rywun addas i'w benodi'n glerc. Gall yr unigolyn hwn naill ai fod yn Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr neu'n unigolyn sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant i glercod. Ar ôl derbyn cais am glerc bydd gan awdurdod lleol un wythnos ar bymtheg i ddarparu rhywun addas, sydd wedi cael hyfforddiant. Gall unrhyw gostau a ysgwyddir gan yr awdurdod lleol wrth ddarparu clerc o dan y trefniadau hyn gael eu tynnu o gyllideb ddirprwyedig y corff llywodraethu.

6.6 Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch hyfforddiant clercod. Ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym bydd yn rhaid i holl glercod neu ddarpar glercod cyrff llywodraethu fynychu'r hyfforddiant o fewn blwyddyn i'w penodiad, neu o fewn blwyddyn i'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Nid oes yn rhaid i Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr a chlercod hyfforddedig a ddarperir gan awdurdodau lleol gwblhau'r hyfforddiant i glercod.

## Pwy sy'n gorfod darparu'r hyfforddiant i glercod?

6.7 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod hyfforddiant i glercod ar gael. Mae hyn yn golygu nad yw awdurdodau lleol dan ddyletswydd i ddarparu a chyflwyno'r hyfforddiant eu hunain. Gallant benderfynu cael contractwyr i wneud hyn ar eu rhan. Os byddant yn dewis yr ail opsiwn rhaid i awdurdodau lleol ddweud yn glir wrth y darparwyr fod yn rhaid iddynt ymdrin â'r holl bynciau a restrir yn y ddogfen orfodol 'Cynnwys Hyfforddiant i Glercod Cyrff Llywodraethu yng Nghymru' – Rhif ISBN 978-0-7504-9645-2 ar gyfer y fersiwn Gymraeg a Rhif ISBN 978-0-7504-9644-5 ar gyfer y fersiwn Saesneg.

6.8 Fodd bynnag, bydd yn werth i awdurdodau lleol helpu eu hysgolion ac ymwneud, pan fo modd, â'r hyfforddiant i glercod er mwyn iddynt gael sicrwydd bod yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i safon uchel, a bod yr hyfforddiant y mae clercod yn ei gael o ansawdd da ac yn mynd i wella'u hyder a'u sgiliau.

6.9 O gofio nad oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant i glercod (er bod nifer yn gwneud hynny), i helpu awdurdodau lleol mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil lunio rhaglen hyfforddi clercod sy'n adlewyrchu'r holl bynciau a geir yn y dogfennau 'Cynnwys'. Bydd y rhaglen hyfforddi clercod yn cael ei hanfon at awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu penderfynu a ydynt am gyflwyno'r hyfforddiant hwn yn fewnol neu a ydynt am drefnu i gyflenwyr annibynnol gyflwyno'r hyfforddiant.

6.10 Yn wahanol i'r hyfforddiant i lywodraethwyr sydd am ddim i lywodraethwyr a chyrff llywodraethu, gall awdurdodau lleol godi tâl ar ysgolion am gost darparu'r hyfforddiant i glercod.

## Rôl cyrff llywodraethu

6.11 Er mwyn rhoi'r hyfforddiant i glercod ar waith yn ddidrafferth, bydd angen i ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio'n agos i sicrhau bod clercod y mae'n rhaid iddynt gwblhau'r hyfforddiant gorfodol, yn gwneud hynny o fewn y cyfnod hyfforddi gofynnol.

6.12 Rhaid i gadeiryddion cyrff llywodraethu ddweud yn glir wrth y clerc y bydd disgwyl iddo fynychu hyfforddiant i glercod o fewn blwyddyn i'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym neu o fewn blwyddyn i benodiad y clerc. Dylai cadeiryddion cyrff llywodraethu ofyn am ganiatâd i roi enw'r clerc a dyddiad penodi'r clerc i'r awdurdod lleol fel y gellir cysylltu â hwy ynglŷn â'r sesiynau hyfforddi sydd ar gael. Bydd hyn yn helpu cyrff llywodraethu i fonitro presenoldeb clercod yn yr hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r terfynau amser statudol a'u hatal rhag cael eu diswyddo. Fodd bynnag, clercod sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu henwau ar y rhestr o bobl sydd i'w galw i fynychu hyfforddiant.

## Rôl yr awdurdod lleol

6.13 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o sesiynau hyfforddi ar gael fel y gall clercod, y tu mewn neu'r tu allan i ardal eu hawdurdod lleol, fodloni'r gofynion i fynychu'r hyfforddiant gorfodol i glercod yn unol â'r rheoliadau.

## Pwy sy'n gorfod mynychu'r hyfforddiant i glercod?

6.14 Mae'n ofynnol i holl glercod y cyrff llywodraethu a holl glercod y pwyllgorau statudol – y pwyllgor disgyblu disgyblion, y pwyllgor derbyniadau (ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn unig), y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo staff – fynychu'r hyfforddiant o fewn blwyddyn i'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym neu o fewn blwyddyn i'w penodiad, p'un bynnag yw'r diweddaraf. Mae hyn yn cynnwys clercod a benodir i gorff llywodraethu cysgodol gan awdurdod lleol, oni bai bod yr unigolyn hwnnw'n dod o dan y meini prawf eithrio a restrir ym mharagraff 6.15 isod.

## Pwy sydd wedi'u heithrio rhag cyflawni'r hyfforddiant i glercod?

6.15 Mae'r unigolion canlynol wedi'u heithrio rhag cyflawni'r hyfforddiant i glercod:

- Swyddogion cefnogi llywodraethwyr;
- Y sawl sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant i glercod yn foddhaol;
- Unrhyw lywodraethwr a benodir yn glerc mewn argyfwng os metha'r clerc â mynychu cyfarfodydd, yn unol â Rheoliad 42 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 neu Reoliad 50 o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010.

## Diswyddo’r clerc

6.16 Os na fydd clerc corff llywodraethu yn mynychu’r hyfforddiant gorfodol ac yn ei gwblhau’n foddhaol rhaid i’r corff llywodraethu ddiswyddo’r clerc. Yr awdurdod lleol fyddai’n gyfrifol am ddiswyddo clerc a benodwyd ganddynt i gorff llywodraethu cysgodol. Dylai cadeirydd y corff llywodraethu dynnu sylw eu clerc at y gofyniad i fynychu’r hyfforddiant gorfodol yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn ysgol o’r corff llywodraethu. Dylai cadeirydd y corff llywodraethu fod yn monitro’r sefyllfa drwy drafod y mater yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Am fod yr awdurdod lleol yn meddu ar wybodaeth gallant hwy hefyd ysgrifennu at gadeirydd y corff llywodraethu i roi gwybod iddo nad yw’r clerc wedi cwblhau’r hyfforddiant. Ar ôl i’r cadeirydd gael gwybod am hyn dylai gysylltu â’r clerc ar unwaith a dweud wrtho y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i’w ddiswyddo’n ffurfiol.

6.17 Gall y cadeirydd ddefnyddio’i bwerau i drefnu cyfarfod ar fyr rybudd os bydd angen er mwyn delio â hyn cyn gynted â phosibl ac er mwyn penodi clerc newydd i sicrhau parhad yn y gwasanaeth i’r llywodraethwyr. Os bydd y clerc yn cael ei ddiswyddo yn union cyn cynnal cyfarfod o’r corff llywodraethu efallai y bydd yn rhaid i’r pennaeth ac/neu’r cadeirydd ymgymryd â rôl y clerc a dosbarthu agendâu a phapurau. Yng nghyfarfod y corff llywodraethu rhaid penodi llywodraethwr i wneud nodiadau’r cyfarfod yn absenoldeb clerc penodedig. Bydd yn rhaid i awdurdod lleol ddilyn ei broses ei hun i benodi clerc i gorff llywodraethu cysgodol pan fo’r clerc gwreiddiol wedi’i ddiswyddo.

6.18 Ar ôl i glerc gael ei ddiswyddo bydd yn rhaid iddo fynychu’r hyfforddiant a’i gwblhau’n foddhaol cyn y gellir ei benodi’n glerc eto.

## Darparu clerc

6.19 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu cyrff llywodraethu o bryd i’w gilydd y gallant ofyn i’r awdurdod lleol ddarparu ar eu cyfer rywun i’w benodi’n glerc. Wedi derbyn cais o’r fath rhaid i awdurdodau lleol ddarparu unigolyn sydd wedi cael hyfforddiant addas o fewn 16 wythnos i dderbyn y cais.

6.20 Nid yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc Corff Llywodraethu) (Cymru) 2013 yn nodi pa mor aml y mae ‘o bryd i’w gilydd’ yn ei olygu, ond awgrymir y byddai unwaith ym mhob blwyddyn ysgol yn ymddangos yn rhesymol, er y gall awdurdodau lleol gytuno ar eu hamseriadau eu hunain yn y cyswllt hwn. Gellir cyflawni hyn drwy anfon e-bost i’r ysgolion, drwy gynnwys erthygl mewn cylchlythyr i lywodraethwyr, neu drwy unrhyw ddull arall y bydd yr awdurdod lleol efallai am ei ddefnyddio.

6.21 Gall yr unigolyn a gynigir fod yn Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr neu’n rhywun arall sydd wedi cael hyfforddiant addas ac sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant gorfodol. Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod, os bydd yn rhaid i awdurdod lleol chwilio am rywun addas a’i hyfforddi, y bydd hyn yn arwain at gostau y gall yr

awdurdod lleol fynnu bod y corff llywodraethu'n eu talu – rhaid i'r costau a fynnir beidio â bod yn fwy na'r costau i'r awdurdod lleol.

6.22 Os bydd awdurdodau lleol yn methu â darparu unigolyn hyfforddedig sydd ganddynt yn barod ac yn gorfod recriwtio rhywun, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i awdurdodau lleol roi i'r corff llywodraethu amcangyfrif o'r gost. Dylai hyn atal yr awdurdod lleol rhag mynd drwy'r broses o chwilio am glerc a chael y corff llywodraethu wedyn yn gwrthod y cynnig am fod y costau i'r ysgol yn rhy uchel.

# Atodiad: Cwestiynau ac atebion

## Llywodraethwyr

**C. A fydd Llywodraeth Cymru’n gwneud yr holl hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol?**

A. Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau i estyn hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr i gynnwys unrhyw agwedd ar waith llywodraethwyr. Ni fwriedir gwneud hynny ar hyn o bryd ond gall y sefyllfa newid yn y dyfodol.

**C. A fydd llywodraethwyr yn cael prawf ar ôl yr hyfforddiant gorfodol?**

A. Na fyddant. Credwn y bydd llywodraethwyr am gymryd rhan yn yr hyfforddiant ac am elwa arno. Bydd yr hyfforddiant yn gynhwysfawr ac o ansawdd da. O’r herwydd, credwn y bydd y ffaith bod llywodraethwyr yn mynychu’r hyfforddiant yn ddigon.

**C. Bydd yr hyfforddiant gorfodol yn cael effaith ar recriwtio a chadw llywodraethwyr.**

A. Mae Llywodraeth Cymru’n deall y teimlad y bydd hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr efallai’n cael effaith ar recriwtio a chadw llywodraethwyr. Er bod llywodraethwyr yn wirfoddolwyr, oherwydd eu rolau a’u cyfrifoldebau amrywiol iawn dylent fod yn barod i gyflawni rhywfaint o hyfforddiant i’w helpu i ddeall yn well y rôl hynod bwysig sydd ganddynt.

Credwn y bydd y rhan fwyaf o lywodraethwyr yn croesawu’r cyfle i gael hyfforddiant o ansawdd uchel a fydd yn gwella’u sgiliau trosglwyddadwy ac yn rhoi iddynt well dealltwriaeth o’u rôl a’r hyder i ofyn cwestiynau i uwch-reolwyr ac i gadeiryddion cyrff llywodraethu.

**C. Beth fydd yn digwydd imi os na fyddaf yn cwblhau’r hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr?**

A. Os na fydd llywodraethwr wedi cwblhau’r hyfforddiant o fewn yr amserlen ofynnol, bydd yn cael ei atal am 6 mis a dylai gyflawni’r hyfforddiant yn yr amser hwnnw. Os na fydd llywodraethwr yn cwblhau’r hyfforddiant gorfodol yn ystod y cyfnod atal bydd yn cael ei anghymhwyso rhag dal y swydd.

**C. Beth yw’r broses ar gyfer atal/anghymhwyso llywodraethwyr nad ydynt yn cwblhau’r hyfforddiant gorfodol o fewn yr amserlenni penodedig?**

A. Bydd yr ataliad am beidio â mynychu hyfforddiant gorfodol yn awtomatig. **Ni** fydd disgwyl i gyrff llywodraethu ddilyn y weithdrefn atal a nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae’r canllawiau hyn yn egluro hynny a’r broses o hysbysu’r llywodraethwr ei fod wedi’i atal.

Os na fydd y llywodraethwr wedi cwblhau'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod atal o 6 mis, bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu'r cadeirydd a'r clerc fod y llywodraethwr i'w anghymhwyso rhag dal y swydd. Bydd y cadeirydd/clerc yn ysgrifennu at y llywodraethwr i roi gwybod iddo am hyn a gall y corff llywodraethu chwilio am lywodraethwr newydd.

**C. Beth sy'n digwydd os bydd llywodraethwr yn sâl ac yn methu â chwblhau'r hyfforddiant gorfodol o fewn yr amserlen benodedig? A ellir rhoi estyniad mewn amgylchiadau arbennig?**

A. Ni fydd y rheoliadau'n rhagnodi eithriadau petai llywodraethwr yn sâl, bydd yr un broses atal/anghymhwyso yn berthnasol. Efallai y bydd llywodraethwr yn sâl am gyfnod hir ac wedi methu â mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu yn ogystal â methu â chwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Er y derbyniwn y gallai hyn fod yn fater sensitif, mae rhoi'r broses atal ar waith yn golygu y bydd yn dod yn broses ffurfiol sy'n caniatáu i'r corff llywodraethu nodi yn y cofnodion y rhesymau am yr ataliad os bydd her.

**C. Beth fydd hyd y sesiynau hyfforddi?**

A. Er na fydd Llywodraeth Cymru'n rhagnodi hyd pob sesiwn hyfforddi, argymhellwn na ddylai fod yn hirach na dwy awr a hanner. Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu hyd y sesiynau hyfforddi a sut i'w cyflwyno.

**C. A all yr hyfforddiant gael ei gyflwyno'n electronig?**

A. Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu sut y caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno. Pa bynnag ddull a ddewisir, rhaid iddynt sicrhau bod cynnwys yr hyfforddiant yn ymdrin â'r gofynion gorfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed bod awdurdodau lleol yn ymchwilio i'r opsiwn o ddatblygu hyfforddiant electronig ar-lein i lywodraethwyr.

## Clercod

**C. A fydd clercod yn cael prawf ar ôl yr hyfforddiant gorfodol?**

A. Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i glercod gael eu hyfforddi i safon benodol. Bydd yr hyfforddwr yn ystyried a oes gan y Clerc, yn ei farn ef, ddealltwriaeth foddhaol o'r cynnwys. Ceir mwy o fanylion yn y ddogfen 'Cynnwys Hyfforddiant i Glercod Cyrff Llywodraethu yng Nghymru' – Rhif ISBN 978-0-7504-9645-2 (Cymraeg) a Rhif ISBN 987-0-7504-9644-5 (Saesneg).

**C. Beth fydd yn digwydd i glercod os na fyddant yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol i glercod?**

A. Byddant yn cael eu diswyddo ac ni fyddant yn cael eu penodi'n glerc nes eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r canllawiau'n egluro'r camau y bydd angen i'r

corff llywodraethu a chadeirydd y corff llywodraethu eu cymryd os bydd hyn yn digwydd.

**C. Sut y bydd cyrff llywodraethu'n gwybod nad yw'r clerc wedi cwblhau'r hyfforddiant a bod yn rhaid ei ddiswyddo?**

A. Bydd disgwyl i'r Clerc roi gwybod i Gadeirydd y Corff Llywodraethu pan fydd wedi cwblhau'r hyfforddiant.

**C. Mae'n amlwg o'r 'Gwobrau clercod' fod gennym glercod da yng Nghymru. Pam mae angen hyfforddiant arnynt?**

A. Ydy, mae'n amlwg bod gennym rai clercod cyrff llywodraethu da, gwybodus ac effeithlon yng Nghymru. Er hynny, mae ansawdd y clercio'n amrywio'n fawr ledled Cymru. Byddai'n anodd asesu'r holl glercod yng Nghymru i wirio'u heffeithiolrwydd ac i benderfynu pa glercod ddylai gael hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant gorfodol i glercod yn sicrhau bod yr holl glercod wedi'u hyfforddi i lefel uchel gyson ac yn gwella ansawdd y clercio da ledled Cymru.

**C. Ni ddylai clercod pwyllgorau statudol orfod cwblhau'r hyfforddiant gorfodol am fod y rôl hon yn aml yn cael ei rhannu gan nifer o bobl?**

A. Bydd pwyllgorau statudol yn aml yn delio â materion cynhennus, felly mae'n bwysig bod clercod y pwyllgorau hyn wedi cael hyfforddiant priodol i ddelio â materion o'r fath. Os bydd unigolion AD ALl yn hysbysu cyrff llywodraethu eu bod hwy yn mynd i glercio'r gweithdrefnau disgyblu a diswyddo, bydd yn rhaid i'r corff llywodraethu fynd trwy'r broses o ddiswyddo'u clerc presennol a phenodi'n ffurfiol yr unigolyn AD yn glerc. Rhaid i gyrff llywodraethu hefyd gofio bod yn rhaid bod yr unigolion hyn wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol i glercod yn unol â'r rheoliadau. Yr unig rai sydd wedi'u heithrio rhag cyflawni'r hyfforddiant yw Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr, unigolion sydd eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant i glercod a llywodraethwr a benodir i weithredu fel clerc pan fetha'r clerc â mynychu cyfarfod.

**C. Bydd clerc a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn costio mwy na chlerc yn yr ysgol; mae gan hyn oblygiadau cost i ysgolion.**

A. Ni all Llywodraeth Cymru nodi faint o dâl y dylai ALlau ei godi am ddarparu clerc, ond, byddem yn disgwyl i'r tâl fod yn rhesymol am y gwasanaethau a ddarperir. Os bydd y corff llywodraethu'n meddwl bod y costau'n rhy uchel ni fydd yn rhaid iddynt dderbyn y cynnig i ddarparu clerc.

**C. Pwy ddylai dalu am yr hyfforddiant i glercod?**

A. Yn wahanol i'r hyfforddiant i lywodraethwyr, sydd am ddim i lywodraethwyr a chyrff llywodraethu ysgolion, gellir codi tâl am yr hyfforddiant i glercod yr un fath ag erioed. Byddai unrhyw gostau'n debygol o gael eu talu o gyllideb yr ysgol.

Fodd bynnag, os bydd corff llywodraethu'n penodi clerc a ddarperir gan yr ALl, h.y. Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr, byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r clerc hwnnw gael ei hyfforddi i'r safon ofynnol ac i'r awdurdod lleol ysgwyddo cost yr hyfforddiant. Caniateir i'r ALl godi ffi ar y corff llywodraethu am ddarparu Clerc.

Mae nifer o ALlau eisoes yn darparu hyfforddiant i glercod, felly mae'n bosibl na fydd awdurdodau lleol yn codi tâl am hyfforddiant i glercod ac y byddant yn llyncu'r costau.

## Awdurdodau lleol

**C. Sut y bydd costau ceisiadau cynyddol am glercod awdurdodau lleol yn cael eu talu?**

A. Gall ALlau godi tâl ar ysgolion am union gostau darparu clerc. Gallai hyn fod trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, ond mater i awdurdodau lleol fydd dewis y dull mwyaf priodol a phennu lefel y tâl.

**C. Sut y bydd costau'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am hyfforddiant i glercod yn cael eu talu?**

A. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â rhanddeiliaid i baratoi rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar y cynnwys gorfodol a bydd ALlau'n cael ei defnyddio am ddim.

Er y gallai fod rhyw gynnydd bach yn y costau i ALlau, dylent fod yn ddibwys o gofio y gallant godi tâl am union gost yr hyfforddiant i glercod. Os bydd unrhyw broblemau o ran darparu hyfforddiant i glercod, y disgwyliad yw y byddai ALlau'n cydweithio trwy gonsortia a threfniadau cydweithredu i ddelio ag unrhyw broblemau o ran capasiti a hygyrchedd.

**C. Mae hyfforddiant i glercod yn faich ychwanegol i awdurdodau lleol.**

A. Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant i glercod, ond bydd llawer ohonynt yn ei ddarparu. Am fod clercio da yn helpu cyrff llywodraethu i fod yn effeithiol, efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried darparu'r hyfforddiant hwn. Os byddant yn penderfynu ei ddarparu, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu rhaglenni hyfforddi i awdurdodau lleol eu defnyddio am ddim.